**EITEM AR YR AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21ain Mawrth 2011**

## Cod Llywodraethu Corfforaethol

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân a Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 I hysbysu Aelodau o ddiwygiadau i 'Reoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2005'.

2 I edrych am gymeradwyaeth Cod Lleol o Lywodraethu. Gellir defnyddio hwn fel safon i fesur perfformiad yr Awdurdod mewn ymarfer hunan asesiad a wneir ar ddiwedd blwyddyn er mwyn ffurfio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## Cefndir

3 Mae newidiadau i Reoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2005 yn gofyn i Ddatganiad Blynyddol o Gyfrifon yr Awdurdod gynnwys Datganiad Llywodraethu. Mae hwn yn cymryd lle'r Datganiad o Reolaeth Fewnol yn y Datganiad o Gyfrifon.

## Gwybodaeth

4 Diben y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw adrodd yn gyhoeddus ar yr ystent mae'r Awdurdod yn cydymffurfio gyda'i god ei hunan yn flynyddol, bydd yn cynnwys sut maent wedi monitro effeithiolrwydd eu trefniadau llywodraethu yn y flwyddyn honno ac unrhyw newidiadau arfaethedig yn y cyfnod sydd i ddod.

5 Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol sydd ynghlwm yn seiliedig ar ddogfen o'r enw 'Cyflwyno Llywodraeth Dda mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith', gynhyrchwyd gan CIPFA a SOLACE, sy'n gosod

egwyddorion a safonau sydd wedi eu hanelu i gynorthwyo’r Awdurdodau Lleol i ddatblygu a chynnal eu Codau o Lywodraethu eu hunain a rhyddhau eu hatebolrwydd i gynnal busnes yn iawn.

6 Mae’r fframwaith yn argymell fod awdurdodau yn gallu dangos eu bod yn cydymffurfio gydag egwyddorion Llywodraethu Da ddatblygwyd gan y Comisiwn Annibynnol ar Lywodraethu Da mewn Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda chefnogaeth gan Swyddfa Rheoli Cyhoeddus a CIPFA mewn partneriaeth gyda Sefydliad Joseph Rowntree.

7 Dyma’r egwyddorion craidd:

- Canolbwyntio ar ddiben yr Awdurdod ac ar ganlyniadau i’r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth i’r ardal leol.
- Aelodau a Swyddogion yn cydweithio i gyflawni diben cyffredin gyda swyddogaethau a rolau sydd wedi eu diffinio’n glir.
- Hyrwyddo’r gwerthoedd i’r Awdurdod ac arddangos gwerthoedd Llywodraethu Da drwy gynnal safonau ymddygiad.
- Cymryd penderfyniadau hysbys a thryloyw sy’n amodol ar archwiliad effeithiol a rheoli risg.
- Datblygu cynhwysedd a gallu Aelodau a Swyddogion i fod yn effeithiol.
- Ymgysylltu gyda phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn.

8 Mae gan bob un o’r egwyddorion craidd egwyddorion cefnogol sydd yn eu tro yn cyfieithu i amrediad o ofynion penodol ddylid cu hadlewyrchu yng Nghod yr Awdurdod Lleol.

9 Mae Swyddogion Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio gyda’u cyfoedion yng Ngwasanaethau Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru i gynhyrchu Cod Llywodraethu Corfforaethol sy’n briodol i’r tri awdurdod yma. Mae’r cod yma wedi ei atodi fel atodiad 1.

**Argymhelliad**

10 Gofynnir i Aelodau gymeradwyo'r Cod Llywodraethu Lleol, lle bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn mesur ei berfformiad yn erbyn yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

# COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

# COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

## Datganiad Polisi

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gyfrifol am sicrhau fod ei fusnes yn cael ei wneud yn unol gyda'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac wedi ei gyfrifo amdano, ac yn cael ei ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol. Wrth ryddhau'r atebolrwydd hwn, mae aelodau ac uwch swyddogion yn gyfrifol am roi'r trefniadau cywir yn eu lle i lywodraethu materion yr Awdurdod Tân ac Achub a stiwardiaeth yr adnoddau sydd ganddo i'w defnyddio. I'w perwyl hwn, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod o lywodraethiad corfforaethol sy'n gyson gydag egwyddorion ac yn adlewyrchu gofynion Fframwaith CIPFA/SOLACE: *Cyflwyno Llywodraeth Dda mewn Llywodraeth Leol* ynghyd â chanllaw cysylltiedig.

# COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

## Cyflwyniad

Llywodraethu yw sut mae cyrff llywodraeth leol yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, i'r bobl iawn, mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd sy'n eu rheoli a'u cyfeirio y maent yn atebol iddynt wrth ymgysylltu gyda'r gymuned.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cydnabod ei gyfrifoldebau fel sefydliad gwasanaeth cyhoeddus, i gefnogi'r egwyddorion yma, a bod Aelodau a Swyddogion yn gweithredu yn unol gyda safonau uchel o ymddygiad.

Mae'r egwyddorion yma'n cael eu hadlewyrchu yng ngweledigaeth, datganiad o fwriad a nodau corfforaethol yr Awdurdod sydd wedi eu gosod isod ac sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion ein gwasanaeth a chymunedau. Mae'r angen i gynaladwyedd gael ei fewnosod o fewn ein sefydliad wedi cael ei adnabod a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffordd mae'r amcanion unigol yn cael eu rheoli'n lleol.

Mae gweledigaeth yr Awdurdod yn cael ei efelychu yn ei ddatganiad o fwriad *'I wneud Gogledd Cymru yn lle diogel i fyw, gweithio ag ymweld á hi'.*

Yn 2001, mabwysiadodd yr Awdurdod 5 set o nodau corfforaethol er mwyn cyflawni ei ddatganiad o fwriad:

1. I atal tanau damweiniol a maleisus.

2. I amddiffyn pobl rhag cael eu lladd neu anafu gan dân a pheryglon eraill.

3. I amddiffyn y gymuned, busnesau a'r amgylchedd rhag cael eu niweidio rhag tân a pheryglon eraill.

4. I ddarganfod ffyrdd o wella er mwyn cwrdd â disgwyliadau'r gymuned.

5. I weithredu mor effeithiol ac effeithlon ag y gallwn, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gennym ni.

Mae llywodraethu da yn llifo o ethos neu ddiwylliant wedi ei rhannu, yn ogystal ag o systemau a strwythurau. Ni ellir ei ostwng yn set o reolau neu ei gyflawni'n llawn drwy gydymffurfio gyda set o ofynion. Mae'r ysbryd neu'r ethos yma o lywodraethu da yn gallu cael ei fynegi fel gwerthoedd a'i arddangos mewn ymddygiad.

Mae llywodraethu da yn adeiladu ar y saith egwyddor ar gyfer ymddygiad pobl mewn bywyd cyhoeddus a gafodd eu sefydlu gan y pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, adnabyddir fel egwyddorion Nolan, sef,

**Anhunanoldeb**

Fe ddylai deiliad swydd gyhoeddus weithredu yn nhermau diddordeb y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hyn mwyn ennill buddion ariannol neu eraill iddyn nhw'u hunain, eu teuluoedd nac eu ffrindiau.

**Cyfanrwydd**

Ni ddylai deiliad swydd gyhoeddus roi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu arall i unigolion neu sefydliadau allai edrych i'w dylanwadu ym mherfformiad eu dyletswyddau swyddogol.

**Gwrthrycholdeb**

Wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud apwyntiadau cyhoeddus, dyfarnu cytundebau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrau neu fuddion, fe ddylai deiliad swydd gyhoeddus wneud dewisiadau yn ôl teilyngdod.

**Atebolrwydd**

Mae deiliad swydd gyhoeddus yn atebol am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd i'r cyhoedd a rhaid iddynt gyflwyno eu hunain i unrhyw archwiliad sy'n briodol i'w swydd.

**Didwylledd**

Fe ddylai deiliad swydd gyhoeddus fod mor agored ag sy'n bosib am yr holl benderfyniadau a'r gweithredoedd maent yn cymryd. Fe ddylent roi rhesymau am eu penderfyniadau a chyfyngu gwybodaeth pan fydd diddordeb y cyhoedd ehangach yn gofyn am hyn yn unig.

## Gonestrwydd

Mae gan ddeiliad swydd gyhoeddus ddyletswydd i ddatgan unrhyw ddiddordebau preifat sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro oedd yn codi mewn ffordd sy'n amddiffyn diddordeb y cyhoedd.

## Arweinyddiaeth

Fe ddylai deiliad swydd gyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion yma drwy arweinyddiaeth ac esiampl.

Dilysnod o lywodraethu da yw'r datblygiad o werthoedd sydd wedi eu rhannu, sy'n dod yn rhan o ddiwylliant y sefydliadau, tanategu polisi ac ymddygiad drwy'r sefydliad. Mae'r rhain yn ychwanegol i'r cydymffurfiad cyfreithiol ar faterion megis cydraddoldeb.

Mae'r cod a ddatblygwyd gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ei rannu i chwe egwyddor graidd adnabuwyd yn CIPFA/SOLACE, mae gan bob un o'r rhain egwyddorion cefnogol, sy'n cyfieithu i ofynion sy'n cael eu hadlewyrchu yn y cod a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod Tân.

Dyma'r chwe egwyddor graidd -

- Canolbwyntio ar ddiben yr awdurdod ac ar y canlyniadau i'r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth i'r ardal leol
- Aelodau a swyddogion yn cydweithio i gyflawni diben cyffredin gyda swyddogaethau a rolau sydd wedi eu diffinio'n glir
- Hyrwyddo'r gwerthoedd i'r awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da drwy gynnal safonau uchel o ymddygiad
- Cymryd penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy'n amodol ar archwilio a rheoli risg effeithiol
- Datblygu capasiti a gallu aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol
- Ymgysylltu gyda phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn.

Mae'r cod a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod yn cymryd yr egwyddorion craidd a chefnogol ac yn adnabod yr hyn fyddwn ni'n ei wneud i gwrdd â nhw a sut fyddwn ni'n dangos cydymffurfiad.

| Egwyddor 1 – Canolbwyntio ar ddiben yr awdurdod ac ar ganlyniadau’r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth i’r ardal leol | | |
|---|---|---|
| **Mabwysiadu egwyddorion llywodraethu da** | **Beth fyddwn ni’n ei wneud i gwrdd â nhw** | **Sut fyddwn ni’n mesur cydymffurfiaeth** |
| Canolbwyntio ar ddiben yr awdurdod a chanlyniadau i’r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth i Ogledd Cymru:-<br><br>1.Ymarfer arweinyddiaeth strategol drwy gyfathrebu gweledigaeth yr Awdurdod yn glir i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth.<br><br>2.Sicrhau fod defnyddwyr yn derbyn ansawdd uchel o wasanaeth yn uniongyrchol, neu mewn partneriaeth.<br><br>3.Sicrhau fod yr Awdurdod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac yn arddangos gwerth ardderchog am arian. | 1.Gwneud ac adolygu datganiad clir yn rheolaidd o ddiben a gweledigaeth yr Awdurdod fel sail i gynllunio gwasanaeth<br><br>2.Cyhoeddi cynllun o weithgareddau y’i bwriedir a chanlyniadau i wella gwasanaethau yn flynyddol, a’r modd mae’r perfformiad yn erbyn yr amcanion yma’n cael eu mesur<br><br>3.Cyhoeddi adroddiad ar weithgareddau, cyflawniadau a pherfformiad yr Awdurdod, gan gynnwys ei berfformiad a’i safle ariannol.<br><br>4.Datblygu a gweithredu cynllun ariannol yn unol gyda gofynion LICC i sicrhau fod adnoddau digonol ar gael i gwrdd á’i gynlluniau a fwriedir ac i gyflwyno gwerth am arian.<br><br>5.Datblygu cynlluniau i gynnal gwasanaethau optimwm yn y digwyddiad o aflonyddu ar barhad gwasanaeth. | 1.Cyhoeddi datganiad clir o weledigaeth yr Awdurdod, datganiad o fwriad a gwerthoedd yn ei Gynlluniau Lleihau Risg a Gwella.<br><br>2.Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella gyda diweddariadau perfformiad chwarterol ar gael.<br><br>3.Cyhoeddi Datganiad o Gyfrifol blynyddol gydag adroddiadau cyllideb rheolaidd i’r Awdurdod Tân ac Achub a’r Grŵp Gweithredol.<br><br>4.Gweithredu proses o gofnodi ac ymateb i gwynion a sylwadau ac adrodd arnynt wedyn.<br><br>5. Cynnal a phrofi cynllunia parhad gwasanaeth yn rheolaidd yn seiliedig ar asesiad risg o fygythiadau i’r Awdurdod.<br><br>6.Cyhoeddi strategaeth partneriaeth.<br><br>7.Cyhoeddi pob asesiad allanol o berfformiad. |

| Egwyddor 2 - Aelodau a Swyddogion yn cydweithio i gyflawni diben cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi eu diffinio'n glir | | |
|---|---|---|
| **Mabwysiadu egwyddorion llywodraethu da** | **Beth fyddwn ni'n ei wneud i gwrdd â nhw** | **Sut fyddwn ni'n mesur cydymffurfiaeth** |
| Aelodau a swyddogion yn cydweithio i gyflawni diben cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi eu diffinio'n glir drwy:-<br><br>1Fod yn glir am y swyddogaethau a rolau'r Awdurdod, ei bwyllgorau a swyddogion.<br><br>2.Sicrhau fod perthynas waith adeiladol ac effeithiol rhwng Aelodau a Swyddogion a bod cyfrifoldebau'r ddau grŵp yn cael eu gwneud i safon uchel.<br><br>3.Sicrhau fod y berthynas rhwng yr Awdurdod a'r cyhoedd yn glir fel bod y ddau yn gwybod beth i'w ddisgwyl gan y llall. | 1.Osod datganiad clir o rolau a chyfrifoldebau'r Aelodau a'r Swyddogion sy'n egluro'r dirprwyaethau i swyddogion.<br><br>2.Sefydlu protocol o sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng Aelodau a Swyddogion.<br><br>3. Egluro amodau a thelerau cyflogaeth, gan gynnwys tâl cydnabyddiaeth yr Aelodau a'r Swyddogion i sefydlu mecanwaith effeithiol i reoli'r broses.<br><br>4.Sicrhau fod mecanweithiau effeithiol i fonitro perfformiad gwasanaeth yn cael eu sefydlu.<br><br>5.Sicrhau fod y statws cyfreithiol a diben unrhyw bartneriaethau'n glir a bod y rolau a chyfrifoldebau'r holl bartneriaid yn glir. | 1.Cynnal cylch gorchwyl y pwyllgorau i'r holl bwyllgorau.<br><br>2.Cynnal cynllun o ddirprwyaethau i'r Swyddogion.<br><br>3.Cynnal cynllun o orchmynion sefydlog a phrotocol Aelod/Swyddog i reoli rhyngweithiad Aelod/Swyddog.<br><br>4.Sicrhau fod gan staff ddisgrifiadau swydd cyfredol a pherthnasol.<br><br>5.Adroddiadau parhaol unrhyw asesiad perfformiad gan Reolwyr |

| **Egwyddor 3 – Hyrwyddo gwerthoedd i’r awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da drwy gynnal safonau uchel o ymddygiad** | | |
|---|---|---|
| **Mabwysiadu egwyddorion llywodraethu da** | **Beth fyddwn ni’n ei wneud i gwrdd â nhw** | **Sut fyddwn ni’n mesur cydymffurfiaeth** |
| Hyrwyddo gwerthoedd i’r awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethiad da drwy gynnal safonau uchel o ymddygiad drwy:-<br><br>1.Sicrhau fod Aelodau a Swyddogion yn ymddwyn mewn ffordd sy’n cynrychioli gwerthoedd yr Awdurdod.<br><br>2.Sicrhau fod y gwerthoedd yma’n cael eu hymarfer ac yn effeithiol. | 1.Sefydlu a nodi gwerthoedd yr Awdurdod i’r cyhoedd, ei staff a’i randdeiliaid.<br><br>2.Arddangos cymhwysiad y gwerthoedd yma wrth wneud penderfyniadau ac ymddygiad cyffredinol.<br><br>3.Mabwysiadu codau ymddwyn sy’n diffinio’r safonau a’r ymddygiad a ddisgwylir wrth weithio i’r, neu gyda’r Awdurdod.<br><br>4.Cynnal trefniadau i sicrhau nad yw aelodau ac uwch reolwyr yn cael eu dylanwadu gan ddiddordebau personol, bias neu ragfarn wrth wneud penderfyniadau.<br><br>5.Cynnal trefniadau i adrodd, archwilio a delio gydag achlysuron sy’n syrthio oddi tan y rhai ddisgwylir.<br><br>6.Wrth weithio gyda phartneriaid, cytuno gyda’r gwerthoedd fydd pob parti i’r bartneriaeth yn gweithredu. | 1.Cyhoeddi gweledigaeth, bwriad, gwerthoedd ag amcanion.<br><br>2.Cyhoeddi a gweithredu codau ymddwyn i Aelodau a Swyddogion.<br><br>3.Gofyn i Aelodau a Swyddogion gwblhau datganiadau o ddiddordeb a dychweliadau trafodion cysylltiedig yn flynyddol.<br><br>4.Cynnal pwyllgor safonau i oruchwylio safonau Aelodau ac i glywed unrhyw gwynion.<br><br>5.Cynnal proses ddisgyblu i ddelio gydag unrhyw fwlch yn y cod ymddwyn i Swyddogion.<br><br>6.Cynnal Archebion Sefydlog yr Awdurdod<br><br>7.Cynnal a chyhoeddi protocol ‘chwythu'r chwiban i alluogi adrodd unrhyw bryderon am ymddygiad yn gyfrinachol.<br><br>8.Cynnal Polisi Gwrth Dwyll a Llygredd.<br><br>9.Cynnal gweithdrefn cwynion a sylwadau/canmoliaeth ac adrodd y canlyniadau unwaith y flwyddyn o leiaf. |
| | | |

| Egwyddor 4 – Gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy'n amodol ar archwiliad a rheoli risg effeithiol | | |
|---|---|---|
| **Mabwysiadu egwyddorion llywodraethu da** | **Beth fyddwn ni'n ei wneud i gwrdd â nhw** | **Sut fyddwn ni'n mesur cydymffurfiaeth** |
| Gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy'n amodol ar archwiliad a rheoli risg effeithiol<br><br>1. Bod yn drwyadl a thryloyw ar sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a gwrnado a gweithredu ar ganlyniadau sylwadau adeiladol.<br><br>2. Sicrhau gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth o ansawdd da i sicrhau fod gwasanaethau'n cael eu cyflwyno'n effeithiol ac yn cwrdd ag anghenion y gymuned.<br><br>3.Sicrhau ein bod ni'n gweithredu strategaeth reoli risg effeithiol.<br><br>4.Sicrhau ein bod ni'n gweithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer budd y gymuned. | 1.Cynnal trefniadau ar gyfer cofnodi trefniadau'r Awdurdod ar y sail y gwnaed y penderfyniadau hynny.<br><br>2.Cynnal trefniadau i adnabod a chofnodi unrhyw wrthdaro mewn buddiannau gan Aelodau a'r Uwch Swyddogion a sicrhau nad yw'r rhain yn effeithio'r broses gwneud penderfyniadau.<br><br>3. Cynnal trefniadau lle mae Aelodau, staff, contractwyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn gallu codi pryderon am ymddygiad unrhyw un sy'n gysylltiedig gyda gwaith yr Awdurdod.<br><br>4. Cynnal trefniadau effeithiol ar gyfer archwiliad mewnol annibynnol o'r Awdurdod.<br><br>5.Cynnal Pwyllgor Safonau effeithiol.<br><br>6.Sicrhau fod gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau wybodaeth ddigonol i wneud penderfyniadau effeithiol, gan gynnwys cyngor proffesiynol, ariannol a chyfreithiol.<br><br>7.Sicrhau fod rheoli risg wedi ei fewnosod yn niwylliant yr Awdurdod a bod Aelodau a Swyddogion yn ystyried y risgiau wrth wneud penderfyniadau.<br><br>8. Gweithio o fewn y fframwaith deddfwriaeth sydd ar gael.<br><br>9. Wrth weithio mewn partneriaeth, sicrhau fod yr un safonau o lywodraethu da yn cael eu cymhwyso i weithgareddau'r bartneriaeth. | 1. Cyhoeddi cofnodion ac adroddiadau'r Awdurdod ar y wefan.<br><br>2. Cynnal Cynllun cyhoeddi a chydymffurfio gyda gofynion Rhyddid Gwybodaeth o fewn amseroedd penodol.<br><br>3. Cynnal cofrestr o fuddiannau'r Aelodau ac Uwch Reolwyr.<br><br>4. Cynnal protocol 'chwythu'r chwiban' er mwyn galluogi adrodd unrhyw bryderon am ymddygiad yn gyfrinachol.<br><br>5. Gorolwg Archwiliad Allanol o drefniadau Archwiliad Mewnol.<br><br>6. Cyhoeddi cofnodion ac adroddiadau'r Pwyllgor Safonau.<br><br>7. Cyhoeddi a gweithredu polisi a strategaeth Rheoli Risg.<br><br>8. Adrodd yn rheolaidd ar statws cyfredol risgiau strategol a busnes i'r Awdurdod Tân ac Achub. |

| Egwyddor 5 – Datblygu capasiti a galluoedd yr aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol | | |
|---|---|---|
| **Mabwysiadu egwyddorion o lywodraethu da** | **Beth fyddwn ni'n ei wneud i gwrdd â nhw** | **Sut fyddwn ni'n mesur cydymffurfiaeth** |
| Datblygu capasiti a galluoedd yr aelodau i fod yn effeithiol drwy:-<br><br>1. Sicrhau fod gan yr aelodau a'r swyddogion y sgiliau, profiad a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i berfformio eu rolau.<br><br>2. Datblygu galluoedd unigolion a grwpiau i werthuso eu perfformiad.<br><br>3.Annog cynrychiolaeth o bob rhan o'r gymuned rydym ni'n eu gwasanaethu. | 1. Mynediad i'r sgiliau sydd eu hangen gan Aelodau a Swyddogion, gan gynnwys y swyddogion statudol, a datblygu'r rhain yn barhaol e mwyn galluogi ymgymryd á'r rolau unigol yma'n effeithiol ac effeithlon.<br><br>2. Adolygu perfformiad pwyllgorau ac uwch swyddogion yn rheolaidd a gweithredu cynlluniau i'w datblygu ymhellach lle bod angen.<br><br>3. Cynnal trefniadau i annog pob adran o'r gymuned i weithio i'r, a gyda'r Awdurdod a chyfrannau at ddatblygiad ei bolisïau a gweithgareddau.<br><br>4. Wrth weithio gyda phartneriaid, sicrhau fod yr un egwyddorion yn cael eu cymhwyso i waith y bartneriaeth. | 1.Gweithredu Cynllun Adolygu Unigol Staff sy'n ymgorffori datblygiadau personol a gofynion hyfforddi.<br><br>2. Gweithredu rhaglen hyfforddi blynyddol i Aelodau a chofion presenoldeb.<br><br>3.Gweithredu system IPDS i staff gweithredol.<br><br>4.Cyhoeddi strategaeth gyfathrebu ac ymgynghori.<br><br>5. Sefydlu proses ymgynghori gyda'r cyhoedd a staff.<br><br>6. Hyrwyddo'r gwasanaeth tan fel cyfle gyrfaol. |

| Egwyddor 6 – Ymgysylltu gyda phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn | | |
|---|---|---|
| **Mabwysiadu egwyddorion o lywodraethu da** | **Beth fyddwn ni'n ei wneud i gwrdd â nhw** | **Sut fyddwn ni'n mesur cydymffurfiaeth** |
| Ymgysylltu gyda phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn drwy:-<br><br>1.Ymgysylltu gyda phobl a rhanddeiliaid lleol.<br><br>2.Cymryd ymagwedd weithredol wedi ei chynllunio tuag at ymgynghoriad gyda'r cyhoedd i sicrhau cyflwyno gwasanaeth yn effeithiol.<br><br>3.Cymryd ymagwedd weithredol wedi ei chynllunio i gwrdd á chyfrifoldebau at staff. | 1.Gosod prif atebolrwydd yr Awdurdod yn glir a'r modd bydd y rhain yn cael eu hadrodd.<br><br>2.Cynnal trefniadau i gyfathrebu ac ymgynghori gyda phob sector o'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol am bolisïau a gwasanaethau'r Awdurdod.<br><br>3.Cynnal prosesau i ymgynghori gyda staff a'u cynrychiolwyr.<br><br>4.Sicrhau fod yr adborth gan y broses ymgynghori wedi ei ymgorffori i ddatblygiad cynlluniau perfformiad y dyfodol.<br><br>5. Cyhoeddi cynllun perfformiad blynyddol gyda diweddariadau perfformiad chwarterol sy'n gosod cynlluniau a pherfformiadau, gan gynnwys perfformiad ariannol.<br><br>6.Sicrhau fod holl gyfarfodydd ac adroddiadau'r Awdurdod ar gael i'r cyhoedd oni bai lle mae deddfwriaeth yn gofyn cynnal cyfrinachedd.<br><br>7.Wrth weithio gyda phartneriaid, sicrhau fod yr un egwyddorion yn cael eu cymhwyso i waith y bartneriaeth. | 1.Cyhoeddi a chyflwyno Cynllun Gwella a Lleihau Risg Cyfunol.<br><br>2.Cwrdd gyda chynrychiolwyr undeb i ymgynghori ar newidiadau allweddol i gyflwyno polisi a gwasanaeth yn rheolaidd.<br><br>3.Adnabod yn adroddiadau'r Awdurdod lle mae canlyniadau'r ymgynghoriad wedi dylanwad ar benderfyniadau polisi.<br><br>4.Rhoi copïau o'r adroddiadau blynyddol, y Cynllun Gwella a Lleihau Risg ar y wefan ac mewn llyfrgelloedd.<br>5.Holl gyfarfodydd yr Awdurdod yn agored i'r cyhoedd, a'r holl adroddiadau a'r cofnodion ar gael ar y rhyngrwyd. Dogfennau eraill ar gael o dan ddarpariaethau Rhyddid Gwybodaeth.<br><br>6.Cynnwys darpariaethau atebolrwydd a chyfathrebu clir o fewn yr holl gytundebau gyda phartneriaeth. |